# Gwerthusiad Terfynol y Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol – Crynodeb Gweithredol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 35/2015

Ym mis Medi 2014, comisiynwyd Miller Research Cyf i wneud gwerthusiad terfynol o'r rhaglen Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol; rhaglen £9 miliwn a gefnogwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ac a gyflawnir gan Croeso Cymru. Gweledigaeth y Rhaglen oedd: *'symud twristiaeth Cymru o anaeddfedrwydd cymharol mewn e-fusnes yn gadarn i'r oes fusnes ddigidol'*

.

Nod hirdymor y Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol oedd y byddai'r sector twristiaeth yng Nghymru erbyn diwedd 2014 yn fwy cyfarwydd â'r defnydd o TGCh ar gyfer hyrwyddo busnes, ac yn rhoi gwell profiad i'r ymwelydd.

Roedd tri phrif weithgaredd yn helpu cyflawni'r weledigaeth hon:

- Cydweithio â busnesau trwy ddiagnosteg TGCh a'r wefan www.sharewales.com, a ddatblygwyd i rannu gwybodaeth drwy'r holl ddiwydiant.
- Cyllid grant – ar gael i unigolion neu grwpiau i gyflawni gwell perfformiad busnes trwy ddatblygiadau TGCh newydd ar gyfer twristiaeth.
- Gweithgareddau marchnata digidol ar gyfer Cymru gyfan a oedd yn ymwneud â chreu, datblygu a defnyddio gwefan newydd Croeso Cymru a thechnegau marchnata.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Dull Gwerthuso**

Roedd y gwerthusiad yn seiliedig ar ddull Magenta Book Trysorlys y Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio cymysgedd o ymchwil uniongyrchol ac anuniongyrchol gan gynnwys adolygiadau o ddata monitro a dogfennaeth a metrigau'n ymwneud â marchnata digidol yn ogystal â chyfweliadau gyda'r canlynol:

- Wyth aelod o dîm cyflawni'r Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol, dau aelod o staff yn ymwneud â chyflawni gweithgaredd marchnata digidol ac un aelod o'r pwyllgor llywio;
- Sampl o 10 o fuddiolwyr diagnosteg TGCh er mwyn gwirio arolwg a wnaed ar wahân i'r gwerthusiad hwn gan ymgynghorydd allanol (cafodd derbynwyr eu dewis ar y sail eu bod yn adrodd twf busnes sylweddol o ganlyniad i'r ddiagnosteg TGCh);
- Chwech ychwanegol o dderbynwyr diagnosteg TGCh er mwyn galluogi archwiliad manwl o effeithiau a chanlyniadau;
- 34 o dderbynwyr cyllid grant llawn a 12 o dderbynwyr cyllid astudiaeth ddichonoldeb (o'r prosiectau hyn, cafodd 12 eu dewis ar gyfer datblygu astudiaethau achos a oedd yn adlewyrchu math o brosiect, cynnyrch a rhanbarth);
- Saith o brosiectau a gafodd naill ai eu gwrthod neu nad aeth ymlaen gyda chyllid yn dilyn cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb (defnyddiwyd y rhain i ddibenion sefydlu cadarnhad gwrthffeithiol).

Mae'r ymchwil yn adeiladu ar adroddiad canol tymor cynharach (2013), a oedd yn canolbwyntio ar agweddau cyflawni'r rhaglen, gan gydnabod y cynnydd da a wnaed hyd at y pwynt hwnnw.

**Rheoli a Chyflawni'r Rhaglen**

Goruchwyliwyd y Rhaglen gan Grŵp Llywio yn cynnwys naw o aelodau gydag amrywiol fuddiannau yn y sector twristiaeth. Roedd y grŵp hwn hefyd yn gweithredu fel panel arfarnu ar gyfer y rhaglen grantiau.

Cafodd tîm rheoli'r rhaglen ac integreiddio / cyflawni strategol ei recriwtio i oruchwylio a chyflawni'r rhaglen gyda staff cyllid craidd eraill Croeso Cymru hefyd yn cynorthwyo neu oruchwylio elfennau o weithgaredd. Roedd rhai problemau trosiant staff ac oedi wrth recriwtio tîm ar y cychwyn, a oedd yn her o safbwynt cynnal parhad trwy'r holl raglen. Fodd bynnag, roedd y trefniadau rheoli wedi sefydlogi tuag at ddiwedd y rhaglen a'r farn oedd eu bod yn rhoi lefel dda o gymorth. Roedd Strategwyr Rhanbarthol yn cael eu canmol yn helaeth am roi graddau uchel o gymorth i brosiectau unigol, er mai'r teimlad oedd y

gellid bod wedi gwneud mwy i annog arloesi trwy rwydweithio ar draws prosiectau.

Roedd y prosiectau a ariannwyd â grantiau yn destun gwiriadau 100% ar hawliadau am gymorth ac roedd hyn yn golygu llawer o waith i'r derbynwyr a'r timau cymorth.

**Diagnosteg TGCh**

Datblygwyd elfen ddiagnosteg y rhaglen er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch amrywiaeth cymhwysedd TGCh busnesau twristiaeth bach. Fe wnaeth y rhaglen, gyda chyllideb derfynol o £562,000, gynorthwyo'n llwyddiannus 738 o fusnesau trwy ddiagnosteg TGCh, ynghyd â 60 ychwanegol mewn sioeau teithiol ac yn yr Arddangosfa Ddigidol, yn erbyn targed terfynol o 750. Cyflawnwyd y gwaith Diagnosteg gan nifer o ymgynghorwyr a oedd wedi cael eu penodi ynghynt trwy broses dendro gystadleuol. Roedd cyfanswm o 83 y cant o'r buddiolwyr a holwyd o'r farn bod y broses diagnosteg TGCh yn un gadarnhaol, roedd 68 y cant o'r farn fod y ddiagnosteg yn llesol wrth helpu eu busnes i dyfu, a dywedodd 79 y cant fod y ddiagnosteg wedi gwella effeithlonrwydd mewn busnes. Fe wnaeth 55 y cant o fuddiolwyr diagnosteg weithredu argymhellion yn codi o'r ddiagnosteg, gyda chwech y cant pellach yn y broses o wneud hynny.

Cafodd grisiau aeddfedrwydd e-fusnes eu datblygu yn ystod camau cynnar y rhaglen fel sail ar gyfer mesur cynnydd cyfranogwyr. Ar adeg y ddiagnosteg, aseswyd mwyafrif y busnesau i fod ar lefel 2, neu'n "ddefnyddiwr goddefol o TG mewn busnes". Ar ôl y ddiagnosteg, roedd 57 y cant o fusnesau a arolygwyd naill ai ar Gam 3 neu'n uwch ar y grisiau aeddfedrwydd ac roedd 64 y cant wedi symud ymlaen o leiaf un 'cam' ymhellach yn eu e-aeddfedrwydd, yn erbyn targed o 12.5%. Roedd yr elfen hon o'r prosiect yn amlwg yn llwyddiant ac mae'n adlewyrchu cyflawni un o amcanion creiddiol rhaglen gyffredinol y Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol.

O safbwynt cyflawni yn y dyfodol, dywedodd 20 y cant o'r busnesau buddiolwyr a holwyd y byddent yn barod i dalu am wasanaeth tebyg yn y dyfodol. Mae effeithiau ehangach y ddiagnosteg TGCh wedi bod yn sylweddol, gyda 54 o swyddi wedi cael eu creu a llawer o dderbynwyr yn adrodd am dwf yn eu busnes.

**Cyllid Grant**

Roedd gweithgaredd cyllid grant wedi cael ei hollti'n ddwy ffrwd ar y dechrau; i greu cymunedau twristiaeth ddigidol a threialu dulliau arloesol o ddefnyddio technolegau digidol ar gyfer busnes twristiaeth. Fodd bynnag cafodd eu rhain eu cywasgu'n

rhaglen sengl yn canolbwyntio ar weithredu a phrosiectau a oedd yn cael eu cyflwyno'n raddol, gan gwmpasu gwefannau ffonau symudol, apps ac e-lwybrau. Cyfanswm terfynol y gyllideb ar gyfer gweithgaredd grantiau oedd £3,120,000, a oedd wedi'i rannu rhwng grantiau dichonoldeb o hyd at £15,000 (100 y cant); a grantiau llawn o hyd at 53 y cant o gostau prosiectau.
Roedd y staff yn cynnwys rheolwr cyllid, dau swyddog monitro grantiau a thri strategydd rhanbarthol.

Cafodd targed o gefnogi 50 o fentrau ei gyrraedd i raddau helaeth, gyda 45 yn cael eu cefnogi'n ariannol. Fodd bynnag, roedd yn cael ei gydnabod yn helaeth fod y targed hwn yn anwybyddu prif feysydd yr effaith, gyda datblygu'n sylweddol y sail wybodaeth o fewn cwmnïau Cymreig yn un effaith o'r fath. Dywedodd amryw o ddatblygwyr fod y rhaglenni y gwnaethant eu datblygu wedi cael effaith sylweddol ar dwf eu busnesau a'u bod wedi arwain at ehangu neu ddatblygu eu portffolio o fewn y sector twristiaeth. Fe wnaeth busnesau buddiolwyr fynegi'r bwriad i ddatblygu eu cynnig digidol ymhellach, trwy ehangu elfennau llwyddiannus eu prosiectau a thrwy addasiadau i dargedu cynulleidfaoedd o wahanol oedrannau a diddordebau.

Yn benodol, adroddwyd bod yr astudiaethau dichonoldeb wedi cynyddu'n sylweddol hyder mewn prosiectau ac wedi annog buddsoddiad o amser ac arian i'w datblygu hwy'n llawn. Mae'n debyg mai prosiectau a ariannwyd â grantiau a gafodd yr effaith mwyaf ar fusnesau buddiolwyr trwy'r profiad a enillwyd trwy ddatblygu a chyflawni prosiectau, a oedd mewn rhai achosion wedi arwain at waith pellach mewn meysydd tebyg. Adroddwyd bod effeithiau a chanlyniadau prosiectau a ariannwyd â grantiau ar niferoedd a phrofiad ymwelwyr yn llawer cryfach pan oeddent yn gysylltiedig ag atyniadau a chyrchfannau penodol, yn hytrach na phrosiectau mwy cyffredinol ar gyfer Cymru gyfan. Fodd bynnag, nid oes hyd yma unrhyw set ddata drylwyr i ddangos effaith cyffredinol prosiectau ar niferoedd ymwelwyr nac ar amrywiaeth grwpiau ymwelwyr. Mae fodd bynnag rywfaint o dystiolaeth o gynnydd mewn traffig gwefannau a chyfryngau cymdeithasol yn sgil prosiectau yn gwella'u presenoldeb ar-lein o ganlyniad i fuddsoddiad.

*Tystiolaeth wrthffeithiol*
Cynhaliwyd cyfweliadau gydag ymgeiswyr nad oedd wedi cael eu derbyn ymhellach na'r cam datganiad o ddiddordeb (am nifer o resymau gwahanol gan gynnwys dyblygu neu ddiffyg arloesi). O'r rheini y cyfwelwyd â hwy, nid oedd yr un ohonynt wedi mynd ymlaen i ddatblygu'r prosiect yn absenoldeb cyllid Fframwaith Busnes Twristiaeth

Ddigidol ac roedd y mwyafrif o'r rheini a lwyddodd i gael grantiau y cyfwelwyd â hwy hefyd yn awgrymu na fyddai eu prosiect wedi mynd ymlaen heb gymorth.

*Datblygu pellach a meysydd blaenoriaeth*
Er bod gan dderbynwyr grantiau synnwyr cryf o'r angen i wella a chyflwyno prosiectau, bydd anghenion penodol ar gyfer datblygu pellach yn dibynnu i ryw raddau ar gynnydd technolegol ehangach a thueddiadau cymdeithasol. Roedd y buddiolwyr yn sylweddoli'r angen i adnabod ffynonellau ehangach o gyllid a buddsoddiad i gefnogi datblygu.

Roedd blaenoriaethau penodol ar gyfer y dyfodol yn cynnwys addysgu'r sector fel cyfanrwydd ynghylch pwysigrwydd technoleg ddigidol, gwella brandio digidol a defnyddio dull mwy strategol o gydgysylltu prosiectau.

**Marchnata Digidol**
Trydydd prif faes y rhaglen Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol oedd gweithgaredd marchnata digidol a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu gwefan newydd Croeso Cymru, ynghyd â phecyn o fentrau i adeiladu seilwaith llwyfan agored a datblygu ecosystem gysylltiedig. Roedd cyfanswm cyllideb o tua £3 miliwn ar gyfer gweithgaredd marchnata digidol, a chafodd y rhan fwyaf ohono (tua £600,000 y flwyddyn), ei wario ar weithgaredd yn ymwneud â gyrru'r galw.

Ar ôl rhywfaint o anawsterau cychwynnol wrth drafod llwyfan y cytunwyd arno, cafodd gwefan newydd Croeso Cymru ei lansio ym mis Gorffennaf 2013. Mae ynddi gyfoeth helaeth o gynnwys cyfryngol a chyfryngau cymdeithasol. Mae marchnata digidol ehangach yn cynnwys ymgyrchoedd integredig ac ymgyrchoedd ar sail cynnwys thematig ac mae marchnata dan arweiniad cysylltiadau cwsmeriaid / cronfa ddata wedi tynnu'n helaeth ar gynnwys o'r grŵp Flickr pwrpasol https://www.flickr.com/groups/sharewales/ .

Mae consensws ymysg sylwebyddion y diwydiant fod y wefan wedi bod yn llwyddiannus iawn a chaiff ei gweld fel un sy'n arwain y farchnad, gan ddylanwadu ar gystadleuwyr y tu allan i Gymru a phartneriaid o fewn Cymru. Dengys dadansoddiad o'r we fod traffig y wefan wedi tyfu'n ddramatig gyda'r safle newydd yn denu bron i 3.5m o sesiynau yn 2013/14, o gymharu ag 1.6m ar gyfer y gwefannau blaenorol yn 2010/11. Gan ddefnyddio dull Croeso Cymru ei hun o asesu gwerth ychwanegol, amcangyfrifwn fod tua £137.5m wedi cael ei ychwanegu trwy ymwelwyr ar y we yn 2013. O safbwynt cyfryngau cymdeithasol, mae hoffterau Facebook wedi tyfu o 207,000 i 460,000

rhwng dechrau 2012 a diwedd 2014, gyda dilynwyr Twitter yn cynyddu chwe gwaith dros y cyfnod i 61,800. Mae 21 o ymgyrchoedd e-bost wedi cael eu cynnal, gyda chyfradd ymateb cynyddol.

Cafodd gwefan Share Wales ei lansio yn 2011, i ddechrau fel gwefan pwnc unigol i roi gwybodaeth a chymorth i grŵp Flickr Share Wales a'i ddefnyddwyr, cyn cael ei hymestyn i gynnwys y cyfan o'r rhaglen Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol. Erbyn mis Medi 2014, roedd y wefan yn cynnwys 42 o dudalennau unigol, 122 o bostiau blog a 180 o straeon newyddion y rhoddwyd sylw iddynt ers mis Mai 2012, sydd wedi cael eu cysylltu â fideos a thaflennu ffeithiau. Cafodd tua 40 o fideos astudiaethau achos o brosiectau a ariannwyd â grant a buddiolwyr diagnosteg TGCh ac 20 o ganllawiau cynorthwyo eu gosod ar y wefan yr adeg hynny.

Mae'r Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol wedi datblygu cyfanswm o tua 40 o 'ganllawiau cynorthwyo' unigol dwyieithog a thaflenni 'cipio a chymryd', ac mae eu cynnwys wedi cael ei gyhoeddi'n ISBN fel 'Twristiaeth Ddigidol – Canllawiau i'ch Cynorthwyo' (mewn ffurf galed ac electronig ar gyfer Arddangosfa Twristiaeth Ddigidol) a 'Twristiaeth Ddigidol – Canllawiau i'ch Cynorthwyo Rhan II' (mewn ffurf electronig yn unig – ar ôl adrodd). Mae hefyd wedi creu 57 o fideos yn cynnwys astudiaethau achos a chrynodebau o ddigwyddiadau, sydd i'w gweld ar Sianel YouTube Share Wales. Ym mis Tachwedd 2014, roedd 12,373 o luniau yn cael eu rhannu gan 524 o ffotograffwyr sy'n darparu adnodd amhrisiadwy o safbwynt llenwi'r bylchau mewn cynnwys nad yw ar Wales on View4

*Effeithiau a chanlyniadau*

Roedd consensws helaeth fod y wefan wedi bod yn llwyddiannus wrth gynhyrchu a rhannu cynnnwys, er y gellid gwneud mwy i hyrwyddo'r defnydd ohoni gan y diwydiant.

**Casgliadau ac Argymhellion**

Cydnabyddir bod technolegau digidol yn gynyddol bwysig i'r sector twristiaeth ac i farchnata cyfoes cyrchfannau. Roedd y rhaglen hon yn cynrychioli menter arloesol a dylid canmol Llywodraeth Cymru am ymateb i angen clir ar draws y sector twristiaeth am gymorth i wella ymwybyddiaeth ac aeddfedrwydd TGCh ac yn y pen draw, ymwybyddiaeth a phrofiad ymwelwyr.

*Mewnbynnau*

Er bod targedau dangosyddion y Rhaglen yn ymwneud â bodloni gofynion WEFO, nid ydynt yn cipio'r effeithiau a'r canlyniadau ychwanegol sy'n deillio o weithgaredd y Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol. Fodd bynnag, mae targedau dangosyddion

wedi cael eu gosod ar lefelau addas ac mae gradd o hyblygrwydd wedi bod ynghylch ail-broffilio cyllid i adlewyrchu ffactorau allanol (ee y gostyngiad yng nghost technolegau digidol).

Mae'n bosibl y gallai gwefan Share Wales fod wedi cael ei gwella gyda chyllid ychwanegol, gan arwain at fwy o ymwybyddiaeth ac o fabwysiadu ymysg y diwydiant. Yn ogystal, gallai cyllid ar gyfer cymorth a chyllid ar ôl diagnosteg fod wedi hwyluso mwy o fusnesau i fyny'r grisiau e-aeddfedrwydd.

Mae adnoddau staffio wedi bod yn ddigonol ac ni ellid bod wedi rhagweld yr angen am fwy o gymorth ar gyfer gweinyddu grantiau.

*Allbynnau*

Cyrhaeddodd y Rhaglen ei tharged i ddatblygu 5 o fentrau i fynd i'r afael â rhwystrau i fanteisio ar TGCh. Rhagorodd ar dargedau'n ymwneud â chynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu well a gafodd eu lansio, ac fe wnaeth busnesau bach a chanolig y Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol ar Gam 3 neu'n uwch symud ymlaen un cam i fyny'r grisiau aeddfedrwydd e-fusnes. Roedd y rhaglen yn agos at gyrraedd ei thargedau'n ymwneud â mentrau a gafodd eu cynorthwyo neu eu cefnogi'n ariannol.

Mae'r gweithgaredd wedi cyfrannu at weledigaeth y Rhaglen i symud twristiaeth Cymru o anaeddfedrwydd cymharol e-fusnes yn gadarn i'r oes fusnes digidol. Mae tystiolaeth ddigonol i awgrymu bod busnesau twristiaeth wedi dysgu am werth mesurau TGCh ac wedi eu mabwysiadu i wella effeithlonrwydd yn eu busnes, gyda rhai eisoes yn adrodd am dwf o ganlyniad. Mae gweithgaredd a ariennir gan grantiau wedi helpu sefydliadau twristiaeth i fabwysiadu cynhyrchion technoleg arloesol sydd wedi cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd offer digidol a disgwylir iddynt hefyd fod wedi elwa ar effeithiau sylweddol ar niferoedd a phrofiad ymwelwyr. Mae gweithgaredd marchnata digidol wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth o wefan Croeso Cymru ac er bod rhywfaint o weithgaredd heb gael ei gyflawni, mae ei ddiben wedi cael ei gyflawni'n rhannol gan y gwelliannau ehangach i gynnwys gwefan Croeso Cymru a'r ffordd y mae'n gweithio.

*Cyflawni*

Er bod elfennau unigol y Rhaglen wedi cyflawni'n dda, gallai'r rhaglen yn ei chyfanrwydd fod wedi elwa o fwy o gydweithio llorweddol ac o gysylltiadau â ffynonellau eraill o gymorth Llywodraeth Cymru.

*Canlyniadau ac effeithiau*

Mae effeithiau a chanlyniadau'r Rhaglen yn cynnwys:

- cynyddu ymwybyddiaeth ymwelwyr o Gymru;
- cynyddu niferoedd ac arhosiad ymwelwyr;
- gwella profiad ymwelwyr;
- adeiladu capasiti busnesau a sefydliadau twristiaeth.

Mae gweithgaredd y Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol wedi arwain at rai canlyniadau arwyddocaol o safbwynt twf busnes i rai derbynwyr grant a diagnosteg TGCh, ynghyd ag adroddiadau gan fuddiolwyr o drosoli buddsoddiad sector preifat. Mae gweithgaredd marchnata digidol wedi rhoi lle amlycach i Croeso Cymru ar gyfryngau cymdeithasol ac wedi annog mwy o ymwelwyr i wefan Croeso Cymru gan arwain at ffigur gwerth ychwanegol uwch o safbwynt gwariant ymwelwyr.

O safbwynt effeithiau hirdymor mae tystiolaeth o'r canlynol: bydd y mwyafrif o dderbynwyr yn ceisio gweithredu'r argymhellion yn eu diagnosteg; fe wnaeth gweithgaredd a ariannwyd â grant gyfrannu at radd sylweddol o adeiladu capasiti digidol gyda'r mwyafrif o dderbynwyr yn gweld y cyfleoedd i farchnata digidol ac yn bwriadu datblygu eu prosiect Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol yn y dyfodol; mae gwefan Croeso Cymru yn addas i'r diben am o leiaf bum mlynedd gyda gweithgaredd cynnal a chadw parhaus yn dod yn rhan o gweithgareddau cyllid craidd. Fel arwydd o lwyddiant a gwreiddioldeb y Rhaglen, cafodd y Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol ei gydnabod fel un o ugain yn unig o achosion o arloesi ac arferion da sy'n gwella cystadleurwydd twristiaeth yn yr Undeb Ewropeaidd.

**Argymhellion a meysydd blaenoriaeth ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol**

Gan mai fel peilot y cynlluniwyd y Rhaglen, mae'n bwysig fod gwersi a ddysgwyd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu Rhaglenni yn y dyfodol:

- Bod yn agored ynghylch theori newid yn gweithredu fel sail i'r ymyrraeth er mwyn datblygu dangosyddion targedau allbynnau sy'n adlewyrchu'n ddigonol gwmpas gweithgaredd rhaglenni.
- Ystyried hyrwyddo galwadau agored unigol am atebion penodol neu brosiectau'n cael eu cyfyngu gan feini prawf a ddiffiniwyd a dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau er

mwyn sicrhau cydweddiad ag amcanion strategol.

- Cynnwys gwerthuso o'r cychwyn er mwyn sicrhau adnabod dangosyddion perfformiad allweddol, pwyslais ddigonol ar effeithiau a chanlyniadau a sicrhau bod systemau monitro ar waith a chasglu'r wybodaeth iawn ar yr adeg iawn.
- Hwyluso llywodraethu cryfach er mwyn sicrhau bod y weledigaeth strategol yn cael ei gwireddu a bod craffu ar weithgaredd.
- Cynnwys cyfnod sefydlu prosiectau er mwyn: galluogi recriwtio a hyfforddi staff; sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith sy'n addas i'r diben a bod staff yn eu deall; a galluogi cyfnod digonol ar gyfer marchnata. Gallai'r gweithgareddau hyn leihau oedi mewn cyflawni o ganlyniad i brosesau a gynlluniwyd yn wael ac nad ydynt yn cael eu deall yn dda, sicrhau bod staff yn ddigon gwybodus i allu helpu cyflawni a lleihau'r rhwystredigaethau a brofir gan fuddiolwyr ynghylch prosesau adrodd a hawliadau.
- Ystyried cyngor a chymorth cynhwysfawr wrth gyflawni prosiectau yn ogystal â chyllid os ydynt am annog sefydliadau i fabwysiadu technolegau newydd neu arloesol. Dylid ehangu cyngor a chymorth i gefnogi prosiectau sydd wedi eu cwblhau er mwyn sicrhau cynaliadwyedd parhaus. Gallai cyngor a chymorth parhaus edrych ar sut y gellir helpu prosiectau i ddatblygu eu cynnyrch unwaith mae'r cyfnod ariannu ffurfiol drosodd, sut i gael at gyllid ychwanegol a mesur effeithiau a chanlyniadau (gallai casglu data trylwyr ar effeithiau a chanlyniadau prosiect roi sail dystiolaeth rymus ar gyfer adnabod bylchau yng nghynnig digidol y sefydliad a chael at gyllid yn y dyfodol).
- Ystyried cyfradd uwch o ymyrraeth. Methodd llawer o brosiectau dichonoldeb o ansawdd uchel â mynd ymlaen oherwydd diffyg cyllid cyfatebol. Mae cynlluniau grantiau eraill WEFO yn cynnig cyfradd

ymyrraeth o hyd at 80 y cant. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried manteision ariannu llai o brosiectau ond bod y rheini o ansawdd uchel a fydd yn arwain at effeithiau a chanlyniadau mwy sylweddol i'r sector twristiaeth fel cyfanrwydd yn hytrach na sefydliadau buddiolwyr grantiau unigol.

- Sicrhau bod prosiectau a ariennir â grantiau yn cael eu cyflawni'n fwy strategol er mwyn eu cysylltu â gweithgareddau rhanbarthol perthnasol eraill (ee prosiectau eraill a ariennir, cynlluniau marchnata cyrchfannau).
- Cadw'r rôl Strategydd Rhanbarthol, gan sicrhau bod ei gwmpas yn cael ei ehangu i froceru rhwydweithio, cyweithio a rhannu arferion gorau drwy'r sector yn ogystal â chyngor a chymorth i ddeilwyr grantiau.
- Ystyried gwerth parhau'r cymorth ymgynghoriaeth diagnostig penodol i dwristiaeth. Fodd bynnag dylid gwerthuso addasrwydd diagnosteg TGCh cyffredinol Llywodraeth Cymru ac archwilio cyfleoedd am ddatblygu elfen fwy penodol i dwristiaeth o'r gweithgaredd presennol hwn. Mae angen dyrannu adnoddau i alluogi busnesau 'anodd eu cyrraedd' i gael y ddiagnosteg ac i hyrwyddo'i fanteision iddynt.
- Archwilio'r cyfleoedd i ddarparu cymorth pellach i fuddiolwyr diagnosteg o safbwynt ariannu datblygiadau TGCh ac ymgynghoriaeth a chyngor ychwanegol i weithredu argymhellion.
- Ystyried datblygu llwyfan, megis Share Wales, i fusnesau a sefydliadau i gael at syniadau, dysgu a chymorth. Fodd bynnag mae ar unrhyw lwyfan yn y dyfodol angen gwell marchnata a hyrwyddo gyda chysylltiadau cliriach yn cael eu gwneud o ran sut y gall busnesau/sefydliadau elwa ar ei gynnwys.

Awdur: Miller Research

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Joanne Coates
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Tel: 029 2082 5540
Email: joanne.coates@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru
19 Mehefin 2015
ISBN: 978-1-4734-4102-6
© Hawlfraint y Goron 2015

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y
Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni
nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/